

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

3/3/2016

**Preseanol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Croesawodd y Maer yr aelodau ac estynnodd groeso arbennig i Iwan Roberts a Lona Davenport o'r Heddlu. Trafodwyd
  - **Ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Adroddodd yr heddweision fod parodrwydd gan y Cymdeithasau Tai a Fflatiau i gael Gwaharddiad Llys yn erbyn unrhyw un sydd yn amharu ar dawelwch cymdogion neu denantiaid. Pwysleisiwyd fod rhaid i gymdogion gysylltu gyda'r Perchnogion i gwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hefyd mae angen ffonio'r Heddlu'n syth i roi gwybod os oes rhywun yn torri Gwaharddiad Llys.
  - **Cysgod y Coleg:** Bydd yr Heddlu yn cadw llygad ar ôl clywed fod ceir yn gyrru trwy gae chwarae Cysgod y Coleg. Unwaith eto, mae angen i gymdogion helpu trwy ffonio'r heddlu pan ddigwydd hyn.
  - **Ystâd Ddiwydiannol:** Mae pryder am ddiogelwch i drafnidiaeth wrth i loriau lwytho yn ardal hon. Cytunwyd fod angen mwy o arwyddion yn cyfeirio pobl at weithleoedd ymhellach lawr yr Ystâd Ddiwydiannol. Addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i holi am delerau parcio rheolaidd ar y Grîn ar gyfer gweithwyr ar yr ystâd. Gofynnwyd i'r Clerc ohebu am wastraff bwyd yn yr ardal hon.
  - **Biniau masnachol:** Addawodd Cynghorydd Dilwyn Morgan i edrych ymhellach i fater biniau masnachol yn llenwi'r pafin yn Heol Tegid, a bin blêr yn ardal y Plase. Fe gytunodd hefyd i ddelio gyda phroblemau sbwriel wrth y llyn ac ar hyd y ffordd osgoi.

Diolchwyd i'r Heddweision am eu presenoldeb ac am eu gwaith dyfal.

2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Dilys Evans ym mater cais cynllunio'r Spar, a gan Carol Rowland ym mater dyrannu grantiau.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 4ydd, 2016.
5. **Adroddiad y Clerc:** Mae'r sbwriel ym maes parcio'r Co-op wedi ei glirio. Cysylltir gyda'r sawl sy'n gyfrifol am glirio sbwriel yn ardal yr hen ysgol ramadeg.

Goryrru - derbyniwyd ymateb Edwina Hart yn mynegi mai 28mya oedd cyfartaledd cyflymdra yn ôl mesuriadau llynedd wrth yr hen ysgol ramadeg. Adroddodd yr Heddweision fod y fan mesur cyflymdra allan ar bob math o oriau, a bod llawer yn cael eu dal yn goryrru yn ardal Y Bala. Gofynnwyd i'r Clerc holi am ystadegau goryrru.

6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod toriadau o £5 miliwn wedi eu gorfodi ar Gyngor Gwynedd ond roedd yn dda ganddo adrodd nad ydyw prif asedau Penllyn nac ychwaith gwasanaethau i bobl fregus yn cael eu heffeithio.

Adroddodd fod cynlluniau'r ysgol newydd yn mynd ymlaen ac fe fydd corff cysgodol yn cael ei apwyntio yn fuan.

Wrth ymateb i gwestiwn am Fynediad i'r Anabl, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud arolwg o safleoedd aros bysiau yn y dref a dywedodd fod yr Aelod Cynulliad, Dafydd Elis-Thomas yn gwneud ei orau i hyrwyddo hyn er mwyn lleoli lloches bws arall ar y Stryd Fawr.

Adroddwyd fod cytundeb wedi bod i geisio cael bae arall i'r anabl yn ardal y Bull, a chytunodd y Clerc i holi Llywodraeth Cymru a oes penderfyniad ar y mater hwn. Cytunodd hefyd i ofyn i Lywodraeth Cymru dynnu'r cerrig a osodwyd i warchod y coed ifanc ar y stryd, gan fod y coed yn gydnherth erbyn hyn a gall y cerrig achosi difrod i geir.

Adroddodd mai Llywodraeth Cymru sydd wedi ariannu adnewyddu'r goleuadau stryd.

7. **Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Cynrychiolwyd y Cyngor gan y Clerc ac adroddodd ar y cynllun i gael Statws Safle Treftadaeth Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Os bydd llwyddiant, fe ddaw swyddi da yn ei sgil yn ogystal â chyfle i geisio am grantiau.
8. **Goleuadau Nadolig:** Bydd y Clerc yn parhau i bwysu ar Swyddogion i geisio ehangu ar y coed sy'n cynnal goleuadau Nadolig.
9. **Materion Cynllunio** Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol:
- i. Gosodwyd y peiriant a'r hysbyseb heb ganiatâd cynllunio Cymeradwywyd cais NP5/53/LBAD53H siop Spar i arddangos newid lliw'r byrddau tu allan i'r siop.
  - ii. Gwrthwynebwyd cais NP5/53/LB53G siop Spar i gadw peiriant twll yn y wal ac amnewid arwyddion blaen siop oherwydd
- a. Nid oes lle i'r Gymraeg, ac nid yw'r peiriant - sydd wedi ei osod heb ganiatâd - yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg
  - b. Mae'r safle yn cyfyngu ar y gofod ar y palmant
  - c. Mae'r adeilad wedi ei gofrestru ac nid yw'r datblygiad yn gweddu o fewn ardal gwarchod cadwraeth
  - d. Mae'r banciau yn cynnig gwasanaeth digonol yn y dref

- iii. Cymeradwywyd cais NP5/53/540 i adeiladu ramp ar gyfer yr anabl i'r brif fynedfa yn Neuadd Buddug.
- iv. Cymeradwywyd cais NP5/53/4D sef ail wampio, rhan ddymchwel ac adeiladu yn Ysgol y Berwyn.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais NP5/53/LB67U sef newidiadau mewnol ac allanol yn Uned 4 Adeiladau'r Aran.

## 10. Materion Cyllid

Derbyniwyd yn ffurfiol adroddiad ar bapur o Is bwyllgor Cyllid Ionawr 2016 (*Cofnod 10i: Rhoddwyd adroddiad ar lafar o'r trafodaethau, a chytunwyd gydag argymhelliad yr is Bwyllgor Cyllid ar gyfer Praesept 2016-17.*)  
 Cwblhawyd y gwaith o ddyrannu grantiau cymunedol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chytunwyd i dalu am weirio pwynt trydan ar gyfer golau Nadolig. Cytunwyd i dalu cyflog mis Chwefror y Clerc.

## 11. Gohebiaeth

### Gwynedd:

Cytunodd y Maer, y Dirprwy Faer, Dilys Evans, Carol Rowlands, Sharon Evans ac Eluned Jones i fynychu cyfarfod yn Neuadd Buddug 14/3/16 am y toriadau a'r cyfle i ddatgan diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb yn lleol am wasanaethau.

Derbyniwyd gohebiaeth Rheolwr Parcio a Diogelwch y ffyrdd yn mynegi gwelliannau i feysydd parcio'r dref. Gofynnwyd i'r Clerc dynnu ei sylw at yr achlysur o ddatlhu Beibl Mari Jones ar 19/3/16 rhag amharu ar y cyfleoedd i barcio'r adeg honno.

Derbyniwyd atodiad i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn ).

### Un Llais Cymru:

Cytunwyd i ymaelodi ar gyfer y flwyddyn 2016-17. Derbyniwyd gwybodaeth am reolau newydd yn ymwneud â chostau a threuliau Cyngorwyr. Derbyniwyd gwybodaeth am hyfforddiant mis Mawrth a chytunodd Eifion Roberts a Dorothei Evans i fynychu'r hyfforddiant ar Gyllid Llywodraeth Lleol.

**Heddlu:** Derbyniwyd gwybodaeth am gysylltiadau lleol.

**Llywodraeth Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Côt Ymddygiad.

### Erail:

Derbyniwyd gwybodaeth am Ras yr Iaith sydd yn digwydd ar 6/7/16, ac am y cyfarfod i wneud trefniadau yng Nghanolfan Henblas 8/3/16 am 7.00pm.

Derbyniwyd gwybodaeth am reolau newydd parthed Pensiwn gweithwyr.

Nodwyd derbyn gwybodaeth am nwyddau i ddathlu pen-blwydd y Frenhines.

Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch gan Gyngor Tref Porthmadog i gadw'r gwasanaeth dreth yn Nhŷ Moelwyn.

**12. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynnydd. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hybu prynu'n lleol, ac ar geisio adfer ffair Y Bala ar y Stryd Fawr.

### **13 Asedau'r Cyngor**

Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr a gwnaed trefniadau i gynnal yr asedau. Diolchwyd i Carol Rowlands ac i John C Williams am eu gofal o'r asedau.

### **14 Materion lleol y Cyngorwyr Tref:**

Adroddodd Edith Roberts ar y cyfarfod Mynediad i'r Anabl gan gyfeirio at yr angen am aros-fannau a llochesi bws, a bae penodol i'r anabl yn ardal y Bull. Dywedodd bod angen gwneud cais am bas bws mewn da bryd.

Cyhoeddodd Islwyn Pritchard Jones ei fwriad i ymddeol fel Cyngorydd ar dir iechyd. Diolchodd am y fraint o gael gwasanaethu'r Cyngor ac am y gefnogaeth a gafodd ar hyd y blynyddoedd. Ar ran y Cyngor, diolchodd y Maer iddo am ei gyfraniad hir a gwerthfawr fel Cyngorydd, ac fel cyn Faer y dref, a dymunodd iddo iechyd a dedwyddwch yn y dyfodol.

*Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/4/16*